## ATODLEN 3

## ATHRAWON CYMWYSEDIG A DARPARIAETHAU TROSIANNOL YN YMWNEUD AG ATHRAWON CYMWYSEDIG

**7.**—(1) Pan roddir awdurdodiad i'r person, mae'r corff argymell wedi cyflwyno i'r Cynulliad —

(a) argymhelliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i'r person; a

(b) y datganiad a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (2)

(2) Mae'r datganiad yn ddatganiad bod y person —

(a) naill ai wedi —

(i) cwblhau gwasanaeth yn llwyddiannus fel athro graddedig neu athro cofrestredig (fel y bo'r achos) am gyfnod yr awdurdodiad ac wedi cwblhau'n llwyddiannus yr hyfforddiant a gynigiwyd yn yr argymhelliad ar gyfer awdurdodiad, neu

(ii) wedi cwblhau ddim llai na thri mis o wasanaeth fel athro graddedig neu dim llai na blwyddyn o wasanaeth fel athro cofrestredig (fel y bo'r achos) ac wedi gwneud y fath gynnydd yn ystod ei gyfnod o wasanaeth fel athro graddedig neu athro cofrestredig (fel y bo'r achos) nad oedd angen iddo ym marn y corff argymell, yng ngoleuni'r cynnydd hwnnw, gwblhau'r gwasanaeth hwnnw am gyfnod yr awdurdodiad cyn cael ei asesu fel y cyfeirir ato ym mharagraff (b);

(b) wedi'i asesu gan berson cymwys fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig; ac

(c) yn dal gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a roddwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster o safon gyfatebol i hynny a roddwyd gan sefydliad addysgol yn rhywle arall.

(3) Yn y paragraff hwn —

(a) ystyr "person cymwys", mewn achos lle mae'r corff argymell yn sefydliad achrededig, y sefydliad hwnnw, a'i ystyr mewn unrhyw achos arall yw'r person y mae'r Cynulliad wedi'i gymeradwyo at ddibenion cyflawni'r asesiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (2)(b);

(b) ystyr "safonau penodedig" yw'r safonau, sy'n gymwys adeg yr asesiad, ac a bennir gan y Cynulliad fel y safonau sy'n ofynnol gan berson sy'n ceisio dod yn athro cymwysedig.

(c) mae i "sefydliad yn y Deyrnas Unedig" yr un ystyr ag ym mharagraff 2(2)(a).